

Llun 10<sup>fed</sup> Ebrill 2017

Annwyl aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a'r tîm cymorth.

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Chwefror 2017.

Dymunaf yn y lle cyntaf bwysleisio fy ngwerthfawrogiad o'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun cyflawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Gwynedd a Môn a chymunedau yn y ddwy ardal, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, a datblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynglwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft; sut yr ydych yn bwriadu adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), sydd eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae'n amlwg eich bod wedi meddwl yn galed am sut i gynhyrchu eich asesiad i'w wneud yn ddiddorol a hygyrch i ystod o bobl, a bod annog ymgyfraniad pobl a chymunedau wedi bod yn flaenoriaeth. Mae'n ardderchog eich bod wedi ffocysu'n wirioneddol ar eich 14 ardal gymunedol yn yr ymgyfraniad hwn a'ch bod wedi gweithio'n agos gyda'ch partneriaid, yn arbennig yn y trydydd sector. Mae gennych sylfaen gref i adeiladu arni wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant a bydd yn bwysig i chi sicrhau eich bod yn rhoi cyfle i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyfrannu yn y gwaith o ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a'ch bod yn medru dangos bod eu mewnbwn wedi cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae'r data yr ydych wedi ei gasglu i drwytho eich 15 thema gyffredinol a'ch naw prif neges yn rhoi cychwyn da i chi. Wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant buaswn yn eich annog i archwilio'r **integreiddiad** a'r gydberthynas rhwng themâu amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a ddylai eich helpu i feddwl yn nhermau ardal gyfan a chymuned wrth fynd i'r afael â'ch naw 'neges'. Bydd hefyd yn bwysig i ystyried y modd y mae eich tystiolaeth yn cysylltu â'r saith nod llesiant, yn arbennig wrth ystyried rolau cymharol eich gwahanol sefydliadau **wrth facsimeiddio eich cyfraniad** i'r nodau.

Mae yna rai enghreifftiau defnyddiol yn eich asesiad lle mae data **hirdymor** wedi cael ei ddefnyddio wrth ymdrin â llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, yr iaith Gymraeg a thai. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae angen rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar eich 15 thema gyffredinol, eich naw prif neges a'r 14 Proffil Ardal. Dylech roi peth sylw i ba rai o'ch cymunedau sy'n arbennig o agored i niwed/yn gydnerth yn yr hirdymor, ac ym mha fodd y maent yn agored i niwed neu'n gydnerth.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar atal problemau rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt. Mae hwn yn faes lle buaswn yn eich annog i roi ystyriaeth i'r hyn a ddywedir wrthyf gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd – rydych wedi cychwyn yn ardderchog yn hyn o beth drwy ddatblygu un o nifer o asesiadau ar y cyd ac wedi ariannu ar y cyd swydd allweddol i'ch galluogi i wneud hyn. Gallwch yn awr adeiladu ar hyn drwy barhau i gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo'ch cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i

bobl I archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech symud tuag at gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach am y modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad i symud ymlaen tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu, sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe,  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar

### Asesiad o Lesiant Lleol drafft **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN**

#### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn ar ddogfen ddrafft *Asesiad Llesiant: Gwynedd a Môn - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn*, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect<sup>1</sup> o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol a thrafodaeth ffôn gyda'r tîm BGC ar 3<sup>ydd</sup> Ebrill 2017.

- Gwynedd - Beth sy'n bwysig?
- Ynys Môn - Beth sy'n bwysig?
- Tablau data - Asesiad o Lesiant Lleol Ynys Môn a Gwynedd
- Eich ardal chi yw hon: Beth sy'n bwysig? 2016 and a Phecynnau Gwybodaeth (sampl o 4 o 13: Bangor, Ffestiniog, Caergybi ac Ynys Cybi, Talybolion)
- Cyfoeth Naturiol Cymru - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Ynys Môn a Gwynedd; Gwybodaeth Amgylcheddol ar gyfer Asesiadau Llesiant

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho'r dasg o gyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017, lle mae hynny'n bosibl o gadw mewn golwg yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho'r broses barhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r asesiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad, methodoleg a dadansoddiad yr asesiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at asesiad llesiant lleol, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

---

<sup>1</sup> Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

Tra'n bod yn deall mai proses barhaus yw'r asesiad, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig bod y sylwadau canlynol yn cael eu nodi a'u gweithredu wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio llesiant ar draws y BGC.

## 2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i *facsimeddio* eu cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data mewn asesiadau, ei ddadansoddiad a'n dealltwriaeth ni o bob agwedd o lesiant yn ein cymunedau. Deallwn y bydd y BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Ynys Môn a Gwynedd drwy ystod o 15 o faterion llesiant cyffredinol, o dan bedair thema llesiant gan gyfuno heriau polisi allweddol, materion gwasanaethau ac asedau – ac adnabyddiaeth o'r naw prif 'neges' ar gyfer y ddwy ardal fel canlyniad.

Deallwn o'r sgwrs dros y ffôn fod y 15 mater cyffredinol hyn a'r pedair thema wedi eu hadnabod o fewn y bartneriaeth. Byddai'n ddefnyddiol i'r asesiad egluro pam y mabwysiadwyd yr ymagwedd hon a gosod eu dewisiadau mewn cyd-destun. Pam mae'r 15 mater hyn, i raddau mwy nag eraill, yn arbennig o berthnasol? Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r asesiad gynnwys adran i helpu'r darlennydd i ddeall yn well sut y mae'r gwahanol ymgynghoriadau wedi trwytho detholiad y prif negeseuon. Sonnir am hyn ym mhwynt 5 isod. Ymddengys nad yw'r nodau llesiant cenedlaethol yn darparu rhan o'r cyd-destun strategol ar gyfer yr asesiad. Gellid cryfhau'r asesiad ymhellach drwy gyfeirio mwy at y nodau a hefyd at ddyletswydd y BGC i facsimeddio ei gyfraniad i'r nodau drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Tra'n bod yn deall y rhesymwaith dros wneud y casgliad o ddogfennau'n adnodd ymgysylltu sy'n edrych tuag allan, mae angen rhoi ystyriaeth i well cytbwysedd rhwng yr amcan hwn a'r asesiad gan ddarparu cyd-destun mwy strategol ar gyfer BGCau ac eraill. Mae hon yn thema y byddwn y dychwelyd ati drwy gydol yr adborth hwn. Credwn y byddai'r dogfennau ar eu hennill o gael trosolwg strategol i osod y cyd-destun ar gyfer y gwahanol faterion a'r mesurau a nodwyd – cyfeirir at hyn mewn pwyntiau nes ymlaen – yn cynnwys 5 a 6 isod.

I'r BGC fedru deall sut y gall facsimeddio ei gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol, credwn y bydd angen deall a chyfleu yn glir y berthynas rhwng y 'ffrâm' hon yn yr asesiad a'r nodau cenedlaethol. Sut y gallai'r BGC wneud y cyfraniad mwyaf yn yr ardaloedd a adnabuwyd? Pa rannau o weithgaredd BGCau sydd ag angen gwelliant mewn cyfraniad? Ble mae'r cyfleoedd ar gyfer cyflwyno nodau niferus drwy fynd i'r afael â materion allweddol? Oes yna nodau lle nad yw BGCau yn cyfrannu tuag atynt drwy'r 15 mater ac angen iddynt ddeall *sut* y gallent gyfrannu (e.e. y nod 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang'?).

Byddai'r dadansoddiad hwn yn trwytho datblygiad Cynllun, ac yn galluogi'r BGC i ddeall arwyddocâd posibl ac effaith gweithredu ar y cyd i *facsimeddio* eu cyfraniad.

Mae'r pecyn Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhoi enghraifft ardderchog o'r modd y gellir fframio data drwy ddefnyddio'r nodau llesiant cenedlaethol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy a buasem yn annog y BGC i archwilio sut y gellid defnyddio'r ymagwedd hon yn fwy eang. Gobeithiwn y gellid archwilio'r berthynas hon fel rhan o'ch gwaith parhaus yn y Bartneriaeth a'i chyflwyno'n gryfach yn yr asesiad terfynol a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.

### 3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau llesiant ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Mae'n amlwg i ni bod llawer o ymdrech wedi ei fuddsoddi wrth ddethol yr 14 ardal gymunedol ar gyfer yr asesiad drwy gyfrwng y panel dinasyddion a drwy ymgynghori arall. Mae hyn wedi rhoi i chi fframwaith cadarn ar gyfer symud ymlaen ac adeiladu eich tystiolaeth ar raddfa leol. Deallwn mai gwaith sydd ar y gweill yw hyn; fodd bynnag ar hyn o bryd, mae'r ddau becyn gwybodaeth a'r dogfennau 'Beth sy'n Bwysig?' yn cyflwyno'r un ystod o ddata ar gyfer yr 14 ardal, a'r hyn a gyflwynir ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Gellid eu cryfhau drwy ddweud mwy wrthym am amrywiaethau gofodol mewn llesiant, gwahaniaethau yn yr hyn sy'n penderfynu llesiant, ble mae'r materion hynny s'yn hynod ddifrifol, ble mae asedau sy'n arbennig o fuddiol.

Gallai llawer adran roi gwell dealltwriaeth o wahaniaethau gofodol ar draws amrywiaeth o gymunedau yn yr ardal. Pam fod y fath fwllch mewn disgwyliad oes rhwng gwahanol rannau o'r ardal; beth sy'n penderfynu hyn? Oes yna wahaniaethau yn hyfywedd Canol Trefi? Oes yna ardaloedd arbennig lle mae unigedd gwledig yn arbennig o ddifrifol? A ydyw ffyrdd o fyw afiach a phroblemau gordewdra i'w gweld ym mhob rhan o Ynys Môn a Gwynedd, neu a ydynt yn fwy amlwg mewn cymunedau arbennig? Yr eithriad i hyn unwaith eto yw'r pecyn adnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n defnyddio'n effeithiol iawn ddata meintiol ac ansoddol i ddeall yr heriau allweddol mewn lleoliadau arbennig.

Mae'n amlwg bod yna ystod o ddata meintiol ar gael sydd wedi dylanwadu ar eich detholiad o'r ardaloedd hyn, ond buasem yn eich annog i adeiladu'r 'proffiliau' hyn drwy ddefnyddio data ansoddol hefyd. Deallwn y rhesymeg dros ddefnyddio'r pecynnau adnodd i fframio'r ymgynghoriadau ar-lein ac wyneb yn wyneb – ac mae cyfoeth o ddata ar gael yn y pecynnau gwybodaeth leol a fedrai drwytho dadansoddiad ehangach o lesiant yn eich cymunedau tu hwnt i'r naw neges a nodwyd. Buasem yn eich annog i ddatblygu dealltwriaeth fwy cynnil o lesiant yn y cymunedau unigol wrth i gynllunio llesiant fynd

rhadddo – mae'n amlwg bod gwahaniaethau mawr iawn rhwng byw ym Mangor, Ffestiniog, Caergybi ac Ynys Cybi neu Dalybolion sydd angen eu hamlygu – i helpu'r BGC i ddeall ble gallai gweithredu ar y cyd helpu cymunedau arbennig yn ogystal ag ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

Yn syml iawn, gellir mynd i'r afael ag adeiladu darlun o lesiant lleol ar gyfer y 15 mater drwy ofyn y cwestiwn am bob un *“oes yna wahaniaethau arwyddocaol a phenodol rhwng lleoliadau?”* a gofyn i awduron neu gyfranwyr ystyried y cwestiwn hwn, yn ogystal â rhestru ffynonellau data a bylchau.

#### 4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau llesiant ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau gwirioneddol pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwasanaethau. Deallwn eich bod yn bwriadu i'ch sgwrs ar lesiant beidio bod ynghylch y galw am wasanaethau, ond y dylai ffocysu ar agweddau ehangach o fyw ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, gan anelu at ddatblygu asesiad sy'n rhoi *“adlewyrchiad teg o gymunedau ac sy'n edrych ar sialsiau a chyfleoedd sydd i ddod.”*

Ymddengys bod y ddogfen ymgynghori, ei chwestiynau a'r data a ddefnyddiwyd i annog y sgwrs yn eich ardal wedi ffocysu ar faterion cyflwyno gwasanaethau. Mae'r ymatebion yn dangos bod y 'ffrâm' sy'n cael ei defnyddio gan y cyhoedd yn un sy'n galw am fwy o wasanaethau i gwrdd â'u hanghenion. Bydd hyn yn ddefnyddiol i'r BGC wrth gynllunio lle mae bylchau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a lle byddai gweithio ar y cyd yn fanteisiol. Fodd bynnag, credwn y gallai fod yna berygl mewn ffocysu'r asesiad yn rhy agos at wasanaethau cyhoeddus a'r hyn sydd gan y BGCau i'w cyflwyno, ar draul agwedd ehangach, fwy strategol o lesiant ar draws yr ardal i drwytho cynllunio llesiant.

Awgrymwn hefyd y gellid cael mwy o ddehongliad o'r data i ddeall beth yw'r goblygiadau i'r cymunedau (a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus) ar draws yr ardal. Byddai rhoi ystyriaeth fwy cyson i'r goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus ar gyfer *pob un o'r 15* mater arall yn gwella'r asesiad. A ydyw'r ymagwedd bresennol yn ddigonol? A oes angen rhagor o wasanaethau, rhai newydd a rhai wedi eu haddasu ar gyfer y sector gwasanaethau cyhoeddus? A oes yna amrywiaethau gofodol mewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws yr ardal? Enghraifft o ble mae hyn wedi cael ei wneud yn dda yw yn yr ystyriaeth o brisiau tai ac anghenion tai – ac yng Ngwynedd yr amrywiaeth gofodol yn y mater hwn.



Mae'r ymagwedd ddeongliadol leol yn un y dylid ei defnyddio ar draws y materion llesiant eraill a nodwyd.

Mae'n amlwg bod yna lawer o dystiolaeth yn y fan hon y gellid ei dwyn at ei gilydd mewn crynodeb fwy cyffredinol o'r bylchau arwyddocaol yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a'r heriau i wasanaethau eraill dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Dylai fersiynau o'r asesiad yn y dyfodol fynd i'r afael â hyn er mwyn i'r BGC fedru deall ymhle mae angen gweithredu ar y cyd.

## 5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o ennill cytbwysedd rhwng data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth gynhwysfawr o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae'r dadansoddiad meintiol ac ansoddol a'r dulliau dadansoddi wrth asesu, yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae yna le i'r elfen hon o'r asesiad gael ei chryfhau, yn arbennig yn nhermau adeiladu naratif dealladwy am oblygiadau'r data yr ydych wedi ei gasglu ar lesiant cymunedau; mae angen egluro a dehongli arwyddocâd y materion hyn i Ynys Môn a Gwynedd yn fwy clir.

Mae yna hefyd rai materion strategol craidd sy'n gyffredin i bob ardal o Gymru a ddylai ddaparu cefndir i bob un o'r adrannau: anghydraddoldebau mewn iechyd a safon byw; cydnerthedd seilwaith, yn cynnwys ymdopi â newid yn y boblogaeth yn sgil perygl llifogydd; prinder adnoddau ar gyfer gofal cymdeithasol; darpariaeth tai annigonol; pobl yn byw mewn tloidi; diwygio lles; effaith hinsawdd; caledi; disbyddiad adnoddau naturiol. Mae hyn yn adlais o'n sylwadau cynharach ar yr angen am 'baratodau' strategol ehangach ar gychwyn y ddogfen i helpu i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y 'mesurau' a'r materion yr ydych wedi eu nodi.

Mae'r sylwadau canlynol yn rhoi mwy o fanylion ac enghreifftiau sy'n dangos ble byddai cyd-destun ehangach yn helpu i baratoi ar gyfer y 15 prif fater a'r naw neges allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'r Asesiad hyd yn hyn. Byddai'r rhain yn ategu ac yn ychwanegu at set o ddogfennau sy'n 'wynebu tuag allan' sy'n ceisio ymgysylltu â phobl a phartneriaid.

*Economi:* mae'r thema hon yn ffocysu ar weithgaredd economaidd, lwfans ceiswyr gwaith, cychwyn busnes newydd, gwaith yn y cartref a chyflogau, prydau bwyd ysgol ac incwm gwario, sy'n darparu ffeithiau gyda dim ond ychydig o ddehongli hyd yn oed o fewn yr adran ar 'Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am lesiant'. Gallai'r asesiad fod yn fwy awdurdodol ar oblygiadau





ac arwyddocad y data hwn i lesiant gan ddarparu cyd-destun strategol ehangach a pheintio darlun ehangach o lesiant economaidd yn yr ardal drwy: ddisgrifio pwy sy'n gwneud beth a ble; y gydberthynas rhwng yr ardal ac economïau lleol eraill a natur y cyfleoedd yn deillio o Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r Wylfa; rôl Parc Cenedlaethol Eryri a sefydliadau FHE mewn economïau lleol. Mae'n amlwg bod cael 19% o'r boblogaeth leol mewn amaeth yn arwyddocaol. Beth yw natur ei gyflwr? Ydy olyniaeth ffermydd yn fater allweddol? Ydy tlodi gwledig a thlodi gwaith yn broblem? Tra'n bod yn deall bod Brexit yn dod â llawer o ansicrwydd, mae goblygiadau posibl Brexit, er enghraifft i ariannu gwledig, yn fater allweddol a fydd yn effeithio ar yr ardal ar draws themâu llesiant. Mae'r data a ddarparwyd yn rhoi darlun detholiadol o lesiant drwy ystod o fesurau a fyddai'n elwa o'r cyd-destun ehangach hwn. Deallwn fod data, y gellir ei gyrchu'n hawdd, ar gael gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i drwytho'r adrannau hyn. Dylai hwn gael ei gynnwys yn nogfennau'r asesiad terfynol a'i ystyried fel rhan o'r broses cynllunio llesiant.

*Cymdeithasol:* mae'r thema hon yn cynnwys: ffeithiau am iechyd; disgwyliad oes; gordewdra: ffyrdd o fyw; hunanladdiad a beichiogrwydd ymhlith pobl yn eu harddegau; graddfeydd trosedd; cadw mewn cysylltiad drwy gyfrwng band eang; trafnidiaeth gyhoeddus a gofal di-dâl. Eto, mae'r rhain yn nifer detholedig o fesurau a fyddai'n elwa o gyd-destun ehangach. Fel yn yr adran ar yr Economi, gallai'r sector hwn elwa o grynoded sy'n amlinelli'r *goblygiadau* strategol cyffredinol ar gyfer gwelliant ar draws yr ardal gan ddarparu mwy o ddehongliad. Mae'r mater tai yn enghraifft sy'n dangos o ble mae hyn wedi cael ei wneud yn dda – gyda neges glir am arwyddocâd y mater i lesiant ac yn achos Gwynedd ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaethau rhwng lleoliadau. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar *asedau* cymunedol a chymdeithasol fel rhan o sylwebaeth ar lesiant cymdeithasol yn yr ardal e.e. cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau, a rôl yr economi anariannol mewn llesiant cymdeithasol a lefelau gwirfoddoli yn ogystal â gofal di-dâl. Mae'n amlwg bod argaeledd band eang yn cael effaith cymdeithasol mawr iawn ar rwydweithiau, cydlynu, a.y.b. sydd ag angen eglurhad cliriach yn yr asesiad. Gwybodaeth feintiol a dadansoddol yw hon a fyddai'n trwytho dealltwriaeth BGCau o natur y manau lle gallai gweithredu ar y cyd fod y mwyaf perthnasol.

*Amgylchedd* - mae'r thema hon yn cynnwys gwastraff ac ailgylchu; newid hinsawdd; yr amgylchedd naturiol ynghyd ag 1-2 ffaith am bob un. Ymddengys y dadansoddiad yn gyfyng o'i gymharu â'r hyn a wnaed yn hygyrch gan y pecyn Cyfoeth Naturiol Cymru. Eto mae'n anelgur pam y dewiswyd y materion arbennig hyn. Fel yn yr adrannau eraill, byddai edrych ar lesiant o safbwynt mwy strategol yn ein helpu i ddeall arwyddocâd y materion arbennig a ddewiswyd. Ydy gwastraff yn broblem neu a gaiff ei reoli'n ddigonol; ble mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael yr effaith mwyaf – ar arfordiroedd, ffermio, ar hyd afonydd, neu seilwaith allweddol? Beth yw rôl yr amgylchedd naturiol yn yr economi lleol – drwy isadeiledd gwyrdd a'r Parc Cenedlaethol? Sut y gall asedau naturiol wella llesiant? Pa mor arwyddocaol yw'r perygl o

lifogydd a ble? Eto, byddai crynodeb strategol o oblygiadau materion amgylcheddol i lesiant yn ddefnyddiol. Dylai'r asesiad ddefnyddio'r dadansoddiad ardderchog yn y pecyn adnoddau'n fwy effeithiol, efallai o fewn adran trosolwg strategol.

*Diwylliant* - mae'r thema hon yn cynnwys amser hamdden - ffitrwydd a chanolfannau hamdden, gweithgaredd corfforol, y celfyddydau ac ymweliadau ag amgueddfeydd, ac yn achos Gwynedd, llyfrgelloedd. Yn bennaf, mesurau seiliedig ar wasanaethau yw'r rhain. Eto, caiff y 'naratif' llesiant ei arwain gan ddata gydag ychydig iawn o ddehongli. Byddai'r ffocws cul hwn ar lesiant diwylliannol ar ei ennill o gael ei ehangu i ddarparu peth mewnwelediad ansoddol i ddiwylliant yr ardal e.e. beth yw asedau diwylliannol yr ardal sy'n berthnasol i'r celfyddydau, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, rhwydweithiau gwybodaeth, gweithgaredd mewn cymunedau amaethyddol, digwyddiadau a sioeau a gwirfoddoli? Mae'n amlwg bod llawer o weithgaredd cymunedol yn digwydd na chaiff ei adlewyrchu drwy'r mesurau hyn, yn cynnwys rôl enfawr yr iaith Gymraeg mewn diwylliant lleol. O safbwynt y Gymraeg mae'r nifer o bobl sy'n ei siarad yn amlwg yn bwysig, ond ychydig o eglurhad a geir o'r modd y mae'r mater hwn yn hollbwysig i lesiant a diwylliant, yn *benodol* yn yr ardal. Byddai crynodeb cyffredinol o'r asedau diwylliannol hyn yn ddefnyddiol ar gyfer cynyddu dealltwriaeth y BGC o'r modd y gallant weithio *gyda'r* gymuned i wella llesiant.

Yn ogystal â darparu'r cyd-destun ehangach hwn mae yna nifer o faterion eraill y dylid eu hystyried gan y BGC fel rhan o'r broses cynllunio llesiant a datblygu'r asesiad.

- Egluro'r *arwyddocâd i Ynys Môn a Gwynedd ac effaith y data ar lesiant* - h.y. peidio gadael i'r data 'sefyll ar ei ben ei hunan' heb eglurhad, gan egluro sut y mae'n amlygu ei hunan yn benodol ar draws yr ardal mewn gwahanol leoliadau e.e. data cymwysterau - beth a olyga hyn i'r gweithlu lleol a'r galw am gyflogwyr allweddol e.e. yr Wylfa neu ar draws y sector iechyd?
- *Ffocysu ar heriau a digonolrwydd ymagweddau presennol* - beth yw heriau allweddol y mater o dan sylw i gymunedau a'r sector cyhoeddus? A ydyw ymagweddau presennol yn ddigonol i gwrdd â'r heriau yn y lleoliad? Pa weithgaredd pellach sydd ei angen? Pa weithredu ar y cyd a fedr fynd i'r afael â'r mater? e.e. y newid yn yr hinsawdd a chynnydd mewn llifogydd - pa gymunedau sydd mewn perygl, o gadw mewn golwg gyllid ar gyfer gwaith risg llifogydd?

Fel y dengys y sylwadau uchod - credwn y dylai'r BGC adeiladu ar waith presennol wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo i ddatblygu darlun ehangach o lesiant ar gyfer ardal sy'n fwy cynnil, yn fwy lleol a strategol, gyda ffynonellau data'n cynorthwyo'ch dealltwriaeth o lesiant ac anghenion gwasanaethau cyhoeddus.

## 6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a diffygion o fewn yr ardal hon.

Fel y disgrifiwyd mewn pwyntiau cynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad mewn rhai manau yn rhoi naratif cryf iawn ar heriau sy'n allweddol i'r ardal e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, tai a'r iaith Gymraeg. Mae'r adran "beth a olyga hyn i lesiant" yn darparu rhestr o 'negeseuon' allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghori y deallwn ei fod wedi ei drwytho gan ddadansoddiad y Bwrdd.<sup>2</sup> Mae'r rhain yn cynrychioli ystod eang o heriau, sydd fel y nodwyd ym mhwynt 5 ag angen ymagwedd fwy strategol gan y BGC sy'n mynd *tu hwnt* i 'fesurau' presennol, a ddewiswyd i'w darlunio. Credwn fod yna her arwyddocaol o hyd i'r BGC ddadansoddi'r sefyllfa bresennol, digonoldeb ymyriadau, llywodraethu a gweithredu ar y cyd i ddatblygu Cynllun ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn. Deallwn fod yna eisoes drafodaethau parhaus yn digwydd i ddehongli'r data a gobeithiwn eich bod yn medru mynd i'r afael â'r her hon wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo.

Credwn hefyd y gellid datblygu'r asesiad i ffocysu'n fwy clir ar asedau'r ardal hon yn cynnwys:

- Asedau economaidd poblogaeth sy'n heneiddio, yn nhermau sgiliau, gwirfoddoli, gwariant yn dilyn ymddeoliad, twristiaeth.
- Cryfder y sector cymunedol yn ei gefnogaeth i lesiant cymdeithasol, natur rhwydweithiau cymdeithasol, ffabrig cymdeithasol trefi a phentrefi.
- Asedau 'ffisegol' cymunedol wedi eu seilio yn y gymuned a fedr gynorthwyo cydlyniad
- Rôl yr economi nad yw'n ymwneud ag arian mewn llesiant cymdeithasol, asedau ffisegol, banciau bwyd, trosglwyddiad asedau cymunedol a.y.b.

<sup>2</sup> Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach sydd mor bwysig i lesiant ein cymunedau

- Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
- Deall effaith y newid demograffig ar yr ardal
- Gwarchod yr iaith Gymraeg
- Hybu'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hirdymor
- Gwella cysylltiadau trafniadaeth a galluogi mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
- Yr angen am swyddi o ansawdd da a thai sy'n fforddiadwy i bobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant, yn cynnwys tlodi tanwydd
- Sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle i lwyddo

- Bywiogrwydd diwylliant sy'n ymwneud â'r celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli.

Gellir cyflawni hyn drwy ddatblygu'r ymagwedd ansoddol sydd eisoes yn digwydd yn y Proffiliau Ardal, a chasglu'r wybodaeth hon, dros amser, i ddatblygu darlun mwy cynnil o lesiant na'r un sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws yr ardal gyfan.

Un mater allweddol sy'n berthnasol i hyn yw'r angen am fwy o gydnabyddiaeth o rôl Parc Cenedlaethol Eryri ym meysydd llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae hwn yn ased enfawr ac unigryw na chaiff ei adlewyrchu'n ddigonol yn yr asesiad (ac eithrio'r adran amgylcheddol). Mae'n amlwg bod gan y Parc Cenedlaethol ddylanwad o bwys ar niferoedd ymwelwyr i'r ardal a chydnerthedd economïau lleol. Dylid ystyried gwerth a rôl y Parc Cenedlaethol wrth i'r cynllunio llesiant fynd rhagddo. Yn yr un modd, byddai dealltwriaeth ehangach o gyflogwyr mawr a'u rôl o fewn cymunedau'n helpu i ddeall arwyddocâd yr 'asedau' o fewn yr ardal, er enghraifft, Prifysgol Bangor, yr Wylfa a Phorthladd Caergybi.

Gellid hefyd wella'r asesiad drwy ddarparu mwy o ddealltwriaeth o'r modd y mae'r heriau'n amlygu eu hunain mewn gwahanol ardaloedd o Ynys Môn a Gwynedd, a pha ardaloedd arbennig sy'n berchen cynderthedd neu sy'n agored i gael eu niweidio gan dueddiadau presennol neu rai'r dyfodol. Dylai hyn gynnwys ynni critigol, dŵr a seilwaith trafndiaeth. Mae'r math hyn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, darpariaeth gwasanaeth a llesiant cymunedau'r dyfodol.

## 7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae'n glir o'r ddogfen a'n sgwrs bod llawer o ymdrech wedi cael ei gwneud i drwytho'r asesiad drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, aelodau etholedig a chymunedau. Mae'r arolwg ar-lein a sesiynau galw mewn ym mhob ardal, ynghyd ag ymgysylltiad rhwng swyddogion a phartneriaid wedi rhoi arwydd cryf o faterion llesiant. Mae hyn wedi ei adlewyrchu'n dda yn y pecynnau gwybodaeth ar gyfer y 14 cymuned. Deallwn fod partneriaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi bod yn rhan annatod o'r ymdrech hon ac mae'r ystyriaeth a roddwyd i'r ymagwedd yn dda. Roedd yn braf iawn cael trafod yr hyn

a ddysgoch o'r ymagwedd hon a'r angen i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddatblygu eich dealltwriaeth o lesiant yn eich ardal.

Mae hefyd yn beth da i glywed i ba raddau y mae'r asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, yn cynnwys rhwng y ddau Gyngor. Mae'n amlwg bod cyfraniad cryf wedi dod oddi wrth bartneriaid allweddol yn nhermau darparu data a chynhyrchu'r dadansoddiad o fewn yr asesiad. Byddai'r dogfennau ar eu hennill o gael adran fer yn cydnabod ymdrech y gwahanol bartneriaid yn hyn o beth.

I adeiladu ar hyn byddai'n dda petai'r asesiad yn amlinellu rolau Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol a phartneriaid eraill wrth lywio'r gwaith ar yr asesiad, yn cynnwys rôl y sector preifat. Bydd yn bwysig i ddatblygu ymgysylltiad â'r sector preifat er mwyn cael eu gweledigaeth ar bob agwedd o lesiant, yn arbennig yn nhermau busnesau bach, yr economi amaethyddol a bywiogrwydd canol trefi. Buasem yn eich annog i ddatblygu'r agwedd hon o'r asesiad drwy gyfrwng Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

## 8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilios sefydliadol wrth gynhyrchu'r Asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilios sefydliadol, ar gyfer dehongli beth a olygir gan hyn i lesiant yn yr ardal.

Mae yna le ar gyfer rhoi mwy o ystyriaeth i ddata o bob cyfnod bywyd ochr yn ochr â'r lleill, ac ystyriaeth o'r gydberthynas rhwng data. Mae hwn yn faes i chi ei ystyried ymhellach wrth i chi orffen eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

Buasem yn eich annog i archwilio'r gydberthynas rhwng themâu amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, a ddylai eich helpu i feddwl am eich ymyriadau cymunedol drwy'r holl ardal ar gyfer mynd i'r afael â'r naw 'neges'. Er enghraifft, effaith unigedd gwledig ar iechyd, y berthynas rhwng datblygu economaidd, tai a pheryglon llifogydd, technolegau newydd a chydlynid cymunedol, a rôl y seilwaith gwyrdd yn yr economi lleol. Mae angen archwilio a chydabod y gydberthynas rhwng y rhain fel rhan o ymdrech ehangach i ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn. Mae hwn yn rhywbeth i'r BGC ei ystyried wrth iddo ddatblygu cynllunio llesiant.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn y byddwch yn awr yn cychwyn defnyddio data o asesiadau eraill a phartneriaid i gychwyn trwytho eich cynllunio llesiant; mae hyn yn cynnwys yr asesiad poblogaeth a gwaith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Buasem yn eich annog (yng nghyd-destun pob sylw blaenorol) i integreiddio'r data hwn i mewn i'r asesiad ar lefel ardal gyfan ac ar lefel gymunedol.

## 9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn bod yna gyfle i ddatblygu'r asesiad i gynnwys mwy o ddadansoddiad o effaith tueddiadau'r dyfodol ar lesiant a buasem yn eich annog i ddilyn hyn o fewn y BGC.

Mae yna rai enghreifftiau da yn yr asesiad lle defnyddiwyd data hirdymor wrth sôn am lifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, yr iaith Gymraeg a thai. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae angen rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar y 15 mater, y naw neges a'r 14 Ardal Proffil ac mae hwn yn rhywbeth y buasem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad a'r Cynllun gael eu datblygu, h.y. pa gymunedau sy'n arbennig o agored i niwed/yn gydnerth yn yr hirdymor, ac ym mha fodd y maent yn agored i niwed neu'n gydnerth?

Cafodd y mater hwn ei gydnabod yn ein sgwrs, ac mae'r ffocws sy'n edrych i'r dyfodol, a amlinellwyd gennych ar y 14 ardal gymunedol, yn rhoi cyfle i chi ddefnyddio data mwy ansoddol i archwilio effeithiau posibl tueddiadau'r dyfodol mewn ardaloedd arbennig. Buasem hefyd yn eich annog i ddefnyddio data tueddiadau ansoddol i drwytho eich dadansoddiad o lesiant ym mhob rhan o'r ardal, er enghraifft:

- Defnyddio data Asesiad Perygl Hinsawdd, a chadw mewn golwg eich dealltwriaeth cyfredol o beryglon llifogydd
- Archwilio effaith posibl Brexit, a chadw mewn golwg eich dealltwriaeth gyfredol o ariannu amaethyddol a seilwaith
- Archwilio effaith posibl yr Wylfa os caiff ei ehangu o 2019

Gallai hyn ffurfio rhan o'r 'trosolwg strategol' ehangach yr ydym wedi cyfeirio ato drwy gydol yr adborth hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth; Economi; Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd; Iechyd; Defnyddio Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen



i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

## 10. Materion Traws-ffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion traws-ffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddiad manylach o faterion rhanbarthol a thraws-ffiniol allweddol sy'n effeithio ar Ynys Môn a Gwynedd wedi bod yn fanteisiol i drwytho'r broses cynllunio llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad eglurach o rôl a pherthynas yr ardal â'i hawdurdodau cymdogol ac o fewn yr ardal a gydag lwerddon.

Bydd yn bwysig hefyd i FGCau ystyried y casgliadau'n deillio o asesiadau llesiant ardaloedd cyfagos wrth iddynt ddatblygu'r cynllun. Mae'n amlwg bod yna ystod o faterion rhanbarthol ag angen eu hamlinellu'n gryfach drwy gydol yr asesiad, i osod y cyd-destun ar gyfer y set gyfredol o 'negeseuon' yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, rheoli tirwedd, seilwaith trafniadaeth, datblygu economaidd ac eraill.

Roedd yn beth positif i archwilio'r mater hwn gyda chi yn ein sgwrs dros y ffôn a deall sut mae gwaith y ddau Gyngor gyda Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi helpu'r bartneriaeth i ddeall y persbectifau rhanbarthol a lleol. Nodwyd gennym yn ein sgwrs pa mor bwysig oedd hi i'r asesiad drwytho'r gwahanol bartneriaethau rhanbarthol, ac yn ei dro fwydo gwybodaeth newydd o'r gweithgaredd rhanbarthol hwn yn ôl i mewn i'r asesiad. Mae'n amlwg bod gan y BGC rôl bwysig yn y gwaith o hwyluso gwybodaeth a chynllunio ar y gwahanol lefelau hyn o lywodraethu.

## 11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Deallwn o'r sgwrs dros y ffôn bod gwaith wedi ei wneud i asesu bylchau data yn yr asesiad. Mae hyn yn gadarnhaol a gellid cynnwys yr wybodaeth hon o fewn yr Asesiad ei hunan neu ar y wefan i drwytho partneriaid a'r cyhoedd. Mae angen cyfleu'r bylchau data hyn drwy gydol y bartneriaeth. Awgrymwn o'n dadansoddiad y dylai'r crynodeb hwn gynnwys:



- Bylchau ar gyfer darparu'r cyd-destun strategol ehangach fel yr awgrymwyd eisoes
- Bylchau o dan bob thema, amgylcheddol, diwylliannol, economaidd, cymdeithasol
- Bylchau mewn data ar lefel ardal
- Yr hyn sydd angen i'r BGC wybod dros y tymor byr ar gyfer asesu
- Yr hyn sydd angen i'r BGC wybod i ddatblygu ei ddealltwriaeth o lesiant

Bydd dadansoddiad cyffredinol o'r math hwn hefyd yn bwysig ar gyfer deall a oes yna unrhyw batrymau yn anghenion data ar draws y 15 mater, o fewn y saith neges, a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddai hyn yn helpu'r BGC i ddeall sut y gallai wella ei ddealltwriaeth, a gweld ble mae angen adnoddau. Byddai hefyd yn eich helpu i ddeall lle gellid llenwi bylchau o asesiadau eraill a nodwyd gennych yn ystod y sgwrs yn cynnwys Asesiad Anghenion Poblogaeth.

Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith cyfredol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a rheoli i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Data Cymru am anghenion BGCau.

## 12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimieiddio* eu cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae yna weithgareddau sy'n dangos yr egwyddor datblygu cynaliadwy:

*Hirdymor* – drwy ddefnyddio data hirdymor o dan y 15 mater

*Ymglyfraniad* – drwy'r gwaith ymgynghori yr ymglymerwyd ag ef

*Cydweithio* – drwy dîm prosiect BGC ac ymgysylltiad rhanddeiliaid

*Atal* – drwy drafod ymyrraeth gynnar

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei defnyddio fel *dull o weithredu* yn yr asesiad hwn (gweler sylwadau ar *Integreiddio* ym mhwynt 9).

Mae'n bwysig i'r BGC ddefnyddio'r egwyddor hon i ddylanwadu ar eu dewis o amcanion llesiant yn y cynllun llesiant a dangos eu bod drwy ddewis yr amcanion hyn:

- Wedi ystyried mesurau ataliol

- Wedi archwilio ymagweddau cydweithredol
- Wedi sicrhau bod yr unigolion a'r cyrff iawn wedi ymgyfrannu
- Wedi sicrhau bod ymagwedd integredig wedi cael ei mabwysiadu
- Wedi sicrhau bod effeithiau hirdymor ar gymunedau wedi cael eu hystyried

Mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl gweld y broses asesu'n gwella rhwng nawr a chynhyrchiad y cynllun.

### **13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun**

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennu'n eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae'n gadarnhaol i weld yr adran camau nesaf yn y dogfennau ac eglurder ynglŷn â'r modd y gall unigolion a sefydliadau barhau i ymgyfrannu; yr amserlen; a bwriad y Bwrdd i ddatblygu amcanion llesiant cyffredinol. Fodd bynnag bydd yn bwysig i egluro sut y bydd y BGC yn defnyddio'r deunydd a gasglwyd yn yr asesiad i fformiweiddio amcanon ar gyfer y BGC.

Deallwn fod gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu eich syniadau ar y mater hwn, ac mai un o'r materion allweddol yr ydych yn ei ystyried yw'r dylanwad cymharol sydd gan y BGC ar hyn o bryd ar y materion llesiant hyn. A chadw mewn golwg ein sylwadau ar yr angen am drosolwg fwy strategol drwy'r holl ddogfen hon, buasem yn eich annog i ystyried y 'darlun' ehangach o lesiant yn y ddwy ardal ac o fewn cymunedau (tu hwnt i'ch set gyffredol o fesurau) i archwilio ymyriadau a gweithredu ar y cyd.

### **14. Trosolwg**

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle gallai'r asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi, a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad. Roedd hyn yn hynod o ddefnyddiol a chraff.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod hyn wedi bod yn ymrwymiad enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft.

Fel yr eglurwyd gennym, credwn y gallai'r ymagwedd bresennol gael ei gwella petai BGCau yn mabwysiadu ymagwedd fwy strategol tuag at ddeall llesiant ar draws yr ardal i ddarparu'n cyd-destun ar gyfer y set gyfredol o faterion a negeseuon. Credwn fod dogfen sy'n wynebu'r cyhoedd gyda'r fath lefel o fanylder a dadansoddiad yn un y gellir ei chyflawni ac yn un sy'n hollbwysig ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ennyn ymgysylltiad rhanddeiliaid a sefydliadau yn y broses cynllunio llesiant. Hefyd credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad:

*nodau llesiant* – dealltwriaeth eglurach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol

*ardal a lle* - defnyddio data ansoddol yn ogystal â meintiol i ddatblygu eich dealltwriaeth o leoliadau arbennig

*integreiddio ar draws themâu* – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd a goblygiadau hyn i lesiant

*dehongliad o ddata ac arwyddocâd* – mwy o eglurhad o'r modd y mae'r materion a adnabuwyd drwy'r data'n effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau, a'u harwyddocâd ar draws Ynys Môn a Gwynedd

*asedau cymdeithasol a diwylliannol* – dealltwriaeth ehangach o asedau cymdeithasol a diwylliannol a'u rôl mewn llesiant ar draws Ynys Môn a Gwynedd

*cyd-destun rhanbarthol* – dealltwriaeth ehangach o le Ynys Môn a Gwynedd yn y rhanbarth a'u cydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos, ac effaith hyn ar lesiant

*tueddiadau'r dyfodol* – talu mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant yn yr ardal yn gyffredinol, ac i gymunedau arbennig

*symud ymlaen* – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio'r asesiad data, sut y bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut y bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio parhaus hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Gwynedd a Môn a thrwy'r holl broses cynllunio llesiant.